Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Penodiadau Cyhoeddus

## Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r adroddiad atodol

09/06/2025

## Crynodeb

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi ystyried penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ac wedi cyflwyno nifer o argymhellion a chasgliadau i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

Mae 20 o argymhellion yn y prif adroddiad, 'Penodiadau Cyhoeddus', a thri argymhelliad pellach a thri chasgliad mewn adroddiad atodol, 'Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru: Comisiynydd i Gymru?'

Mae ymatebion Llywodraeth Cymru i'r holl argymhellion a chasgliadau i'w gweld isod.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ..... **4**

1. **Argymhelliad 1** ..... **5**
2. **Argymhelliad 2** ..... **6**
3. **Argymhelliad 3** ..... **8**
4. **Argymhelliad 4** ..... **9**
5. **Argymhelliad 5** ..... **11**
6. **Argymhelliad 6** ..... **12**
7. **Argymhelliad 7** ..... **13**
8. **Argymhelliad 8** ..... **15**
9. **Argymhelliad 9** ..... **16**
10. **Argymhelliad 10** ..... **18**
11. **Argymhelliad 11** ..... **20**
12. **Argymhelliad 12** ..... **22**
13. **Argymhelliad 13** ..... **23**
14. **Argymhelliad 14** ..... **24**
15. **Argymhelliad 15** ..... **25**
16. **Argymhelliad 16** ..... **26**
17. **Argymhelliad 17** ..... **27**
18. **Argymhelliad 18** ..... **28**
19. **Argymhelliad 19** ..... **29**
20. **Argymhelliad 20** ..... **30**
21. **Adroddiad Atodol** ..... **31**

    Argymhelliad 1 ..... 31

    Argymhelliad 2 ..... 32

    Argymhelliad 3 ..... 33

    Casgliad 1 ..... 34

Casgliad 2 ..... 35
Casgliad 3 ..... 36

# Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ei adroddiad a'i adroddiad atodol yn dilyn ei ymchwiliad i Benodiadau Cyhoeddus ar ddydd Iau 27 Mawrth 2025. Rydym yn diolch i'r Pwyllgor am ei adroddiadau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr adroddiadau ac mae ei hymatebion i'r argymhellion a'r casgliadau i'w gweld isod. Rydym wedi ymateb yn ysgrifenedig i bob un o'r casgliadau.

# 1. Argymhelliad 1

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei strwythur sefydliadol i asesu a yw symud yr Uned Cyrff Cyhoeddus i'r Hwb Adnoddau Arbenigol yn gwella amlygrwydd yr Uned ac ymgysylltiad â hi, a sut y mae'n gwneud hynny. Dylid rhannu canlyniad yr adolygiad hwn gyda'r Pwyllgor.

Ymateb:

Fel rhan o waith datblygu sefydliadol yn 2024, cafodd y Tîm Penodiadau Cyhoeddus ei symud o is-adran y Prif Swyddog Diogelwch i'r Ganolfan Arbenigedd Adnoddau a Recriwtio sydd newydd ei sefydlu yn yr Is-adran Cynllunio a Chyflenwi AD. Nod y newid hwn oedd sicrhau bod y gwaith penodiadau cyhoeddus yn cyd-fynd yn agosach â'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Lleoedd ehangach, ac integreiddio'r arferion gorau o ran recriwtio, cynllunio'r gweithlu, a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Nod y Ganolfan Arbenigedd Adnoddau a Recriwtio yw bod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer adnoddau, gwella cydweithrediad, a chynyddu gwelededd ac effaith timau fel Penodiadau Cyhoeddus drwy eu gwreiddio mewn strwythur AD strategol. Mae adborth cynnar yn awgrymu bod y newid hwn yn helpu i ehangu arbenigedd a rhoi cymorth mwy integredig i adrannau a rhanddeiliaid.

Rydym yn dal wedi ymrwymo i adlewyrchu'n gyson ac i wella'n barhaus. Bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a Chyflenwi AD yn cynnal adolygiad ysgafn o'r trefniadau drwy weithdy gyda'r timau sydd wedi bod yn rhan o'r newid. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ddiwedd y broses hon.

# 2. Argymhelliad 2

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am gynnydd ac allbynnau'r camau gweithredu sydd ar y gweill i adeiladu rhwydweithiau a chysylltiadau cryfach rhwng yr Uned Cyrff Cyhoeddus ag adrannau perthnasol eraill o Lywodraeth Cymru.

Ymateb:

Mae cryfhau cysylltiadau mewnol yn flaenoriaeth. Rydym yn gweithio i wella'r cyd-drefniant rhwng timau Llywodraeth Cymru sy'n rhan o waith cyrff cyhoeddus, gan gynnwys llywodraethu, penodiadau, tâl ac amrywiaeth. Mae hyn yn helpu i leihau dyblygu, osgoi dryswch ymysg rhanddeiliaid, ac atgyfnerthu agwedd fwy integredig Llywodraeth Cymru at arweinyddiaeth a chymorth i fyrddau.  Un o'r prif bethau sydd wedi sbarduno'r ailstrwythuro diweddar yw cynyddu gwelededd a chydweithrediad trawslywodraethol.

Mae'r enghreifftiau o'r camau gweithredu sydd ar waith yn cynnwys:

- Grŵp Cyfeirio Cyrff Cyhoeddus – Mae'r grŵp trawslywodraethol mewnol hwn yn cyfarfod bob chwarter. Mae'n casglu ynghyd arweinwyr ar draws timau llywodraethu, cyllid, AD a phartneriaethau cyrff cyhoeddus. Mae'r grŵp yn defnyddio dull strategol o weithio gyda chyrff cyhoeddus ar draws Llywodraeth Cymru, yn hybu dysgu ar y cyd, ac yn edrych ar faterion trawsbynciol.

- Rhwydwaith Cadeiryddion Byrddau – Mae hwn yn fforwm rheolaidd dan arweiniad Prif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru, gan roi cyfle i Gadeiryddion cyrff cyhoeddus drafod yn uniongyrchol â swyddogion ynghylch pynciau fel effeithiolrwydd byrddau, amrywiaeth, cynhwysiant a datblygu arweinyddiaeth.

- Tudalennau'r fewnrwyd – Mae tudalen newydd i gyrff cyhoeddus Cymru ar y fewnrwyd yn darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i waith timau partneriaeth. Bydd y dudalen hon yn arwain at adnodd mewnol newydd sy'n cael ei ddatblygu gan swyddogion yn y Tîm Penodiadau Cyhoeddus ac a fydd yn egluro rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau'r broses i dimau partneriaeth Llywodraeth Cymru sy'n rhan o benodiadau cyhoeddus. Y nod yw hybu cysondeb, chwalu dirgelion y broses, a gwella'r profiad i ymgeiswyr.

- Cylchlythyr Timau Partneriaeth – mae cylchlythyr rheolaidd yn cael ei anfon at dimau partneriaeth a thimau eraill yn Llywodraeth Cymru sydd â diddordeb mewn cyrff cyhoeddus. Mae'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i brosesau a allai effeithio ar dimau

partneriaeth ac mae'n adnodd ychwanegol i hwyluso trafodaethau rhwng y Tîm Penodiadau Cyhoeddus a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Mae'n hyrwyddo hyfforddiant ac ymgysylltu mewnol.

- Cyfarfodydd gyda thimau partneriaeth – Mae'r rhain yn cael eu cynnal dair gwaith y flwyddyn ac maen nhw'n gyfle i'r timau Cyrff Cyhoeddus gwrdd ar-lein â thimau sydd â diddordeb mewn cyrff cyhoeddus.
- Cydweithredu ar y Cyflenwad Talent ac Amrywiaeth – Rydym yn defnyddio arbenigedd o wahanol rannau o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:
    - Y Pennaeth Cydraddoldeb yn y Gweithle, sy'n cyd-drefnu'r ymdrechion trawslywodraethol i gynyddu amrywiaeth ar fyrddau a lleihau'r rhwystrau rhag penodi.
    - Pennaeth y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, sy'n cefnogi gwaith maes cynhwysol a chysondeb polisïau ag ymrwymiadau gwrth-hiliol.
    - Swyddogion yn y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, ac Academi Wales, fel rhan o'r Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau, sy'n cyflawni rhaglen darpar aelodau bwrdd strwythuredig sydd wedi'i hanelu at gynyddu'r gynrychiolaeth o bobl o gymunedau ethnig leiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- Bydd cynnydd yn erbyn y camau hyn yn cael ei grynhoi a'i rannu â'r Pwyllgor erbyn hydref 2025, ochr yn ochr â'r adolygiad sefydliadol a amlinellir yn Argymhelliad 1.

# 3. Argymhelliad 3

Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn ymateb i argymhelliad 2, rydym yn argymell y dylai hyn gynnwys diagram/siart er mwyn i'r Pwyllgor weld lle mae'r gwahanol gyfrifoldebau dros benodiadau cyhoeddus (tâl, recriwtio, llywodraethu/ymgysylltu, datblygu/mentora cyflenwad o ymgeiswyr, amrywiaeth a chynhwysiant) yn rhan o beirianwaith y Llywodraeth a sut y mae'r elfennau unigol hyn yn cysylltu â'i gilydd. Dylai'r diagram/siart hwn ddangos uwch-swyddog cyfrifol penodedig a'r cyfrifoldeb Gweinidogol cyfatebol ar gyfer pob un o'r elfennau hyn. Dylai'r Llywodraeth hefyd gadarnhau pa uwch-swyddog penodedig a pha Weinidog sy'n arwain ar ei pholisi penodiadau cyhoeddus yn gyffredinol.

Ymateb:

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip sy'n gyfrifol am bolisi a gweithrediad penodiadau cyhoeddus. Dominic Houlihan, y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd yw'r Uwch-swyddog sy'n gyfrifol am bob agwedd ar bolisi penodiadau cyhoeddus.

Rydym yn datblygu diagram llywodraethu a fydd yn nodi'r holl elfennau allweddol o'r system penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys y cyfrifoldebau dros dâl, recriwtio, llywodraethu ac ymgysylltu, datblygu a mentora'r cyflenwad o ymgeiswyr, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd y diagram yn cynnwys arweinwyr penodedig ac yn dangos sut mae'r elfennau hyn yn rhyngweithio fel rhan o ddull polisi a chyflawni cydlynol.

Byddwn yn rhannu'r diagram cyflawn â'r Pwyllgor erbyn mis Hydref 2025 (i gyd-fynd ag amserlenni Argymhellion 1 a 2).

# 4. Argymhelliad 4

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi datganiad clir inni ar y pum maes datblygu a nodwyd yn yr adolygiad thematig o recriwtio byrddau cyrff cyhoeddus. Dylai'r datganiad nodi'n glir pa gamau sydd wedi eu cwblhau neu heb eu cwblhau, gan nodi sut y cwblhawyd y camau gweithredu wedi'u cwblhau ac, os nad ydynt wedi'u cwblhau, pam.

Ymateb:

Roedd adolygiad thematig 2023-24 o brosesau recriwtio byrddau cyhoeddus wedi nodi pum maes datblygu allweddol, gyda'r nod o wella ansawdd, hygyrchedd ac effeithiolrwydd y broses penodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Er bod crynodeb o'r adolygiad wedi'i rannu'n fewnol ag uwch arweinwyr, dyma'r datganiad ffurfiol cyntaf a ddarparwyd i'r Pwyllgor ar y cynnydd ym mhob maes.

Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa ar hyn o bryd:

| Maes Thematig | Cynnydd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu |
|---|---|---|
| 1. Profiad Ymgeiswyr | *Ar waith* | Mae'r templedi a'r deunydd cyfathrebu ag ymgeiswyr yn cael eu hadnewyddu i wella'r eglurder a'r dôn. Byddwn yn adolygu ein harferion a'n proses maes o law i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael y gofal gorau. |
| 2. Data a Monitro | *Ar waith* | Rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer system data yn y dyfodol i wella'r gwaith casglu gwybodaeth ac adrodd. Yn y cyfamser, mae'r system CAIS yn dal yn cofnodi data amrywiaeth a phenodiadau pan fydd penodiad yn cael ei wneud. |
| 3. Amrywiaeth a Chynhwysiant | *Ar waith* | Mae camau gweithredu sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith. Mae gwerthusiad annibynnol o gyflawniad y strategaeth flaenorol wrthi'n cael ei gomisiynu. Mae Arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant ac Allgymorth wrthi'n cael ei recriwtio. |
| 4. Gwaith Maes a'r Cyflenwad Talent | *Ar waith* | Mae ymarfer mapio rhanddeiliaid wedi cael ei gynnal i lywio gwaith maes wedi'i dargedu. Mae rhaglen darpar aelodau bwrdd yn cael ei threialu yn y sector iechyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r maes hwn yn dal yn faes datblygu allweddol yn 2025-26. |
| 5. Cysondeb Prosesau a Llywodraethu | *Ar waith* | Mae templedi a chanllawiau wrthi'n cael eu diweddaru. Mae tudalennau mewnrwyd yn cael eu datblygu i gefnogi cysondeb ar draws adrannau. Mae canllawiau a hyfforddiant pellach yn cael eu cynllunio. |

Mae'r pum maes hyn yn cael eu datblygu fel rhan o'r Rhaglen Diwygio Penodiadau Cyhoeddus ehangach. Bydd diweddariad pellach yn cael ei roi i'r Pwyllgor yn ystod hydref 2025 fel rhan o'n gwaith adrodd parhaus ar ddiwygio penodiadau cyhoeddus.

# 5. Argymhelliad 5

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru ail-frandio ac yn ail-lansio'r Uned Cyrff Cyhoeddus, gan nodi ei rôl a'i diben yn glir a sicrhau ei bod yn gwbl amlwg ac yn rhyngweithio â'r cyhoedd. Dylai hyn gynnwys darparu mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am ei rôl a'i chylch gwaith, a sicrhau bod hynny ar gael i bob ymgeisydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ymateb:

Fel yr amlinellwyd yn y sesiwn dystiolaeth gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar 17 Hydref 2024, mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus gynt wedi cael ei diddymu. Mae ei swyddogaethau wedi cael eu cysoni â chanolfannau arbenigedd corfforaethol i wella'r integreiddio ar draws yr agendâu arweinyddiaeth, llywodraethu, adnoddau ac amrywiaeth.

Nid ydym yn credu mai ailfrandio neu ail-lansio'r Uned Cyrff Cyhoeddus yw'r ffordd orau o ddefnyddio adnoddau cyhoeddus. Ein blaenoriaeth yw gwella gweithrediad yn hytrach nag edrychiad, gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau i ymgeiswyr a chyrff cyhoeddus drwy well systemau, cyfathrebu a chymorth.

I gefnogi hyn, rydym wedi trafod â chydweithwyr marchnata yn Llywodraeth Cymru ynghylch sut gallwn wella edrychiad a naws ein deunyddiau cyhoeddus, fel cynnwys y wefan a dogfennau i ddarpar ymgeiswyr bwrdd a rhanddeiliaid. Nod y gwelliannau hyn yw sicrhau'r gwelededd a'r eglurder y mae'r Pwyllgor yn dymuno eu gweld, heb fod angen hunaniaeth brand ar wahân.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithredu o dan frand cenedlaethol cryf a dibynadwy. Rydym yn credu bod cyflwyno is-frandiau newydd yn creu risg o wanhau'r hunaniaeth hon neu o greu dryswch. Felly, rydym yn bwriadu cynyddu gwelededd cyhoeddus drwy wella cynnwys a hygyrchedd o dan frand Llywodraeth Cymru, yn hytrach na drwy ymarfer ailfrandio penodol.

# 6. Argymhelliad 6

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu gwaith i gynyddu amlygrwydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus, gan nodi camau gweithredu clir i gyflawni hyn ac amserlenni ar gyfer pryd y bydd y camau gweithredu'n cael eu cwblhau. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei chynnydd o ran rhoi hyn ar waith.

Ymateb:

Er nad ydym yn bwriadu ailfrandio'n ffurfiol, rydym yn cytuno'n llawn â bwriad y Pwyllgor i wella gwelededd a hygyrchedd penodiadau cyhoeddus.

Mae gwaith eisoes yn cael ei wneud i wella gwelededd ac ymgysylltu, gan ganolbwyntio ar dri maes allweddol:

- Gwella cynnwys cyhoeddus – gwella cynnwys y wefan i roi cymorth gwell i ymgeiswyr, i esbonio rôl Llywodraeth Cymru mewn penodiadau cyhoeddus, ac i gyfeirio at ganllawiau a chyfleoedd.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid – gweithio gyda thimau mewnol a phartneriaid allanol i nodi meysydd i'w gwella, a mynd i'r afael â rhwystrau o ran dealltwriaeth a mynediad.
- Cyd-drefnu negeseuon mewnol – sicrhau cyfathrebu cyson ar draws timau sy'n ymwneud â llywodraethu, adnoddau a chymorth i gyrff cyhoeddus.

Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar y broses ddiweddar o symud timau i'r Ganolfan Arbenigedd Adnoddau a Recriwtio, sydd â'r nod o wella cydweithredu a rhannu gwybodaeth, a gwneud  gwaith penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn fwy gweladwy.

Byddwn yn darparu diweddariadau ar y cynnydd cynnar i'r Pwyllgor erbyn mis Hydref 2025, i gyd-fynd â'r amserlen ar gyfer diweddariadau ar Argymhellion 1-4.

# 7. Argymhelliad 7

Gan fod y strategaeth flaenorol wedi dod i ben ac nad oes unrhyw strategaeth olynol wedi cael ei rhoi ar waith, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun gweithredu a Strategaeth Penodiadau Cyhoeddus penodol ac annibynnol sy'n ymdrin ag amrywiaeth a chynhwysiant yn ei ystyr ehangaf (gan gynnwys iaith a lleoliad daearyddol), a hynny ar fyrder. Ni fyddai'n dderbyniol, yn enwedig o ystyried bod cynifer o agweddau sylfaenol ar strategaeth 2020-23 eto i'w cyflawni, i ymgorffori'r rhain yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol fel yr awgrymwyd. Fodd bynnag, rydym yn nodi, o ystyried mai dim ond cyfnod byr o Dymor y Senedd sy'n weddill, y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried adfer y strategaeth bresennol tan fis Mai 2026. Credwn nad cynnwys y Strategaeth yw'r broblem, ond y ffaith nad yw ei hymrwymiadau wedi cael eu cyflawni.

Ymateb:

Er bod y strategaeth *Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru* wedi dod i ben yn 2023, byddwn yn ailsefydlu'r strategaeth tan fis Mai 2026. Rydym yn dal wedi ymrwymo'n llawn i'w hegwyddorion ac i sicrhau ein bod yn cyflawni'r nodau yr oeddem wedi'u pennu, gan gynnwys gwella amrywiaeth byrddau cyhoeddus ar draws pob nodwedd, fel hil, rhywedd, anabledd, y Gymraeg, cefndir economaidd-gymdeithasol a daearyddiaeth.

Ar yr un pryd, mae gwaith yn mynd rhagddo i drefnu gwerthusiad ffurfiol o'r strategaeth, a fydd yn cael ei arwain yn annibynnol. Bydd y dystiolaeth o'r gwerthusiad hwn yn llywio ein dull gweithredu yn y dyfodol ac yn sicrhau bod camau gweithredu yn seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio. Rydym wedi ymrwymo i gydgynhyrchu'r cam nesaf hwn gyda chymunedau ac arbenigwyr, gan ganolbwyntio ar gyflawni a chanlyniadau mesuradwy.

Rydym wrthi'n ystyried y strwythur gorau ar gyfer y gwaith. Er nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud ynghylch adfer neu adnewyddu *Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru* yn ffurfiol fel strategaeth ar ei phen ei hun y tu hwnt i 2026, bydd amrywiaeth a chynhwysiant yn sicr yn dal yn rhan ganolog a gweladwy o'n rhaglen diwygio penodiadau cyhoeddus drwy gydol gweddill tymor y Senedd hon.

Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ganlyniad y gwerthusiad ac yn cadarnhau camau nesaf ein dull gweithredu strategol ar gyfer amrywiaeth penodiadau cyhoeddus erbyn dechrau 2026.

# 8. Argymhelliad 8

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, yn anfon amserlen at y Pwyllgor hwn yn nodi ei bwriadau a'i therfynau amser pendant ar gyfer adolygu ei strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant a datblygu strategaeth newydd ac yn ei rhoi ar waith.

Ymateb:

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn ac yn dal wedi ymrwymo i weithredu strategaeth wedi'i hadnewyddu ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant mewn penodiadau cyhoeddus. Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i gomisiynu gwerthusiad annibynnol o strategaeth 2020-23. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar strwythur a ffocws y strategaeth newydd.

O ganlyniad i'r cyfyngiadau o ran capasiti ar hyn o bryd, nid ydym mewn sefyllfa i gyhoeddi amserlen gyflawni lawn eto. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor eto yn ystod haf 2025, gan gynnwys dyddiadau dangosol ar gyfer ymgynghori ar y strategaeth newydd, ei datblygu a'i rhoi ar waith.

# 9. Argymhelliad 9

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio i'r Pwyllgor pam mai dim ond un cynllun gweithredu blynyddol ac un adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd o dan Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru - Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar Gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023) ac, yn ogystal â nodi pa weinidog/swyddog a benderfynodd beidio â sefydlu'r grŵp llywodraethu amrywiaeth a chynhwysiant, cadarnhau pa weinidog neu swyddog a wnaeth y penderfyniad ym mhob bob blwyddyn o'r Strategaeth uchod i beidio â chyhoeddi'r cynllun gweithredu blynyddol ac adroddiad blynyddol, a pham.

Ymateb:

Rydym yn cydnabod pryder y Pwyllgor ynghylch y diffyg tryloywder a threfniadau llywodraethu ynghylch cyflawni'r strategaeth *Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru*. Er ein bod yn cydnabod mai dim ond un cynllun gweithredu blynyddol ac un adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd rhwng 2020 a 2023, roedd yr amhariad gweithredol eithriadol a achoswyd gan bandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y gallu i weithredu a chynnal mecanweithiau cyflawni a goruchwylio allweddol, gan gynnwys y Grŵp Llywodraethu Amrywiaeth a Chynhwysiant arfaethedig.

Nid yw'r cofnodion yn dangos bod penderfyniad ffurfiol wedi cael ei wneud gan unrhyw Weinidog neu swyddog unigol i roi'r gorau i gyhoeddi cynlluniau gweithredu neu adroddiadau blynyddol. Yn hytrach, mae'n ymddangos bod hyn wedi digwydd o ganlyniad i golli capasiti gweithredol a pharhad strategol yn ystod y pandemig ac ar ôl y pandemig.

Nid ydym yn credu ei bod hi'n briodol, wrth edrych yn ôl, neilltuo cyfrifoldeb unigol am benderfyniadau na chawsant eu gwneud neu eu cofnodi'n ffurfiol. Fodd bynnag, rydym yn derbyn yn llawn bod y trefniadau llywodraethu a oedd ar waith ar y pryd yn annigonol.

Rydym yn cymryd camau i wneud yn siŵr na fydd hynny'n digwydd eto. Mae trefniadau goruchwylio cryfach wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys:

- Ymrwymiad clir i gyhoeddi diweddariadau ar gynnydd fel rhan o'r cynlluniau Diwygio Penodiadau Cyhoeddus.
- Trafodaethau rheolaidd rhwng y Tîm Penodiadau Cyhoeddus a Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

- Proses annibynnol i werthuso a thrafod â rhanddeiliaid i lywio cam strategol nesaf y gwaith amrywiaeth a chynhwysiant.

Ein blaenoriaeth nawr yw sicrhau bod pob ymrwymiad yn y dyfodol yn seiliedig ar drefniadau llywodraethu cryf, ar drefniadau atebolrwydd clir, ac ar waith adrodd cyhoeddus rheolaidd.

# 10. Argymhelliad 10

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd nad yw trefniadau llywodraethu a gweinyddu gwael ei strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi cael eu hailadrodd mewn meysydd polisi eraill nac yn cael eu hailadrodd felly. Er mwyn darparu'r sicrwydd hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr o'r holl strategaethau a chynlluniau gweithredu sydd ar waith ynghyd â'r gofynion adrodd ac a ydynt yn cael eu bodloni ai peidio.

Ymateb:

Mae'r argymhelliad hwn y tu allan i gwmpas penodiadau cyhoeddus a byddai'n golygu bod angen archwiliad ar draws Llywodraeth Cymru o'r holl strategaethau a chynlluniau gweithredu. Nid yw hwn yn gais cymesur mewn ymateb i'r materion a godwyd mewn perthynas ag un strategaeth mewn un maes polisi.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pryder y Pwyllgor ynghylch llywodraethu a chyflawni, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwersi'r strategaeth *Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru* yn cael eu defnyddio'n llawn yn y rhaglen diwygio penodiadau cyhoeddus. Rydym yn cymryd camau i sicrhau dull gweithredu trawslywodraethol a chydlynol ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Bydd yr holl strategaethau, cynlluniau gweithredu a diwygiadau o dan gylch gwaith y Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn cynnwys y canlynol:

- Strwythurau llywodraethu a pherchnogaeth clir.
- Cerrig milltir cyflawni amserol.
- Mecanweithiau adrodd tryloyw.

Bydd y dull hwn yn gwella atebolrwydd ac yn lleihau'r risg o fylchau llywodraethu tebyg yn y dyfodol.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: diweddariad 2024 yn rhwymo Llywodraeth Cymru, yn ei rôl fel cyflogwr, i gryfhau ein trefniadau llywodraethu mewnol ar gyfer gwrth-hiliaeth, gan sicrhau eglurder, tryloywder ac integreiddiad â fforymau eraill sy'n gwneud penderfyniadau. yn ymrwymo Llywodraeth Cymru, yn ei rôl fel cyflogwr, i gryfhau ein trefniadau llywodraethu mewnol ar gyfer gwrth-hiliaeth, gan sicrhau eglurder, tryloywder ac integreiddio â fforymau gwneud penderfyniadau eraill. Mae'r ymrwymiad hwn yn ymestyn i archwilio sut gellir defnyddio trefniadau llywodraethu i helpu cyrff hyd braich a phartneriaid allweddol i gyflawni camau gweithredu ac i wreiddio ethos gwrth-hiliol. Mae'r adolygiad o'r trefniadau llywodraethu mewnol hyn ar gyfer gwrth-hiliaeth, a chydraddoldeb yn fwy cyffredinol, yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Mae Bwrdd Cyflawni mewnol ar gyfer Trefniadau Gwrth-Hiliaeth wedi cael ei greu'n ddiweddar i oruchwylio'r gwaith o gyflawni camau gweithredu mewnol ym mhennod Arweinyddiaeth y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – mae'r camau hyn yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'n rôl yn y broses penodiadau cyhoeddus.

# 11. Argymhelliad 11

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu set ddata gyflawn (nid un wedi'i rhannu ar draws sawl darn o ohebiaeth) a chynhwysfawr ar nodweddion amrywiaeth (gan gynnwys iaith a lleoliad) i'r Pwyllgor hwn ar fyrder, fel yr ymrwymodd i'w wneud yn ei strategaeth ar gyfer 2020-2023, ar gyfer pob penodiad cyhoeddus i gyrff Wedi'u Rheoleiddio a Heb eu Rheoleiddio, er tryloywder ac i lywio gweithgarwch yn y maes hwn yn y dyfodol, a thrwy hynny greu'r llinell sylfaen a addawyd yng Ngham Gweithredu 1, Nod 1 y Strategaeth.

Ymateb:

Rydym yn cydnabod bod y strategaeth *Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru* wedi ymrwymo i gasglu data gan yr holl aelodau bwrdd presennol i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol.

Ers hynny, rydym wedi cymryd camau i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth amrywiaeth ac i fynd i'r afael â'r prif fylchau yn y data.

- Cafodd set ddata lawn o'r penodiadau a wnaed rhwng 17 Gorffennaf 2023 a 16 Gorffennaf 2024 ei chyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2024 fel rhan o bapur tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys data amrywiaeth wedi'i ddadgyfuno ar draws nodweddion fel rhywedd, ethnigrwydd, cefndir economaidd-gymdeithasol a sgiliau Cymraeg.

- Mae Adroddiad Blynyddol 2023-24 y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus hefyd yn cynnwys data amrywiaeth ar gyfer penodiadau wedi'u rheoleiddio ar draws Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol.

- Cafodd dau arolwg o aelodau bwrdd eu cynnal yn 2023 fel rhan o'r *Adolygiad o amrywiaeth yng ngweithlu ac ar fyrddau'r sector cyhoeddus yng Nghymru*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025, gan ddarparu rhagor o ddealltwriaeth ar draws amrywiaeth eang o gyrff.

- Cafodd arolwg wedi'i dargedu o sgiliau Cymraeg ei gynnal ym mis Ionawr 2025 gan y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i fynd i'r afael yn benodol â'r bylchau o ran amrywiaeth ieithyddol ymysg aelodau bwrdd.

Er bod y ffynonellau hyn yn creu sylfaen dystiolaeth gadarn gyda'i gilydd, nid ydym yn gallu cynhyrchu un set ddata wedi'i chyfuno'n llawn o'r holl aelodau bwrdd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd. Mae hyn o ganlyniad i'r cyfyngiadau yn ein systemau yn bennaf, sy'n cofnodi gwybodaeth am amrywiaeth ar adeg

gwneud cais yn unig, ac nid ydynt yn caniatáu i'r rhai a benodir ddiweddaru eu data ar ôl cael eu penodi.

Felly, nid oes gallu technegol ar hyn o bryd i gynhyrchu set ddata gyfredol, wedi'i chyfuno'n llawn, ar gyfer yr holl benodeion ar draws pob corff.

Rydym wrthi'n ceisio mynd i'r afael â hyn fel rhan o'n rhaglen ehangach ar gyfer diwygio penodiadau cyhoeddus. Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i nodi atebion technegol a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl casglu data amser real ar ôl penodi, a gwella tryloywder a gwaith adrodd yn y dyfodol.

Ar gyfer cyrff cyhoeddus nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, mae'r darlun o reidrwydd yn fwy amrywiol. Nid oes rhaid i'r cyrff hyn ddilyn y broses penodiadau cyhoeddus sy'n cael ei rheoleiddio. Er bod rhai'n dewis mabwysiadu elfennau o'r broses sy'n cael ei rheoleiddio a rhannu data yn wirfoddol; mae eraill yn rheoli penodiadau yn annibynnol. Felly, ar hyn o bryd, nid oes gan Lywodraeth Cymru restr wedi'i chyfuno o benodiadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio (mae'r un peth yn wir yn Llywodraeth y DU). Byddwn yn parhau i hybu arferion da ac ymgysylltu gwirfoddol ar draws yr holl gyrff cyhoeddus, ac yn archwilio cyfleoedd i gryfhau cwmpas y data dros yr amser.

Rydym yn llawn gydnabod pwysigrwydd data cyson o ansawdd uchel i sbarduno gwelliannau o ran amrywiaeth byrddau. Byddwn yn parhau i gryfhau cyflawnrwydd a thryloywder ein data o un flwyddyn i'r llall, ac yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

# 12. Argymhelliad 12

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn bodloni ein cais i gyhoeddi'r adroddiadau "i'w bwrdd" y cyfeiriwyd atynt gan y prif swyddog gweithredu ym mharagraff 166 o'r adroddiad hwn.

Ymateb:

Rydym yn deall diddordeb y Pwyllgor yn yr adroddiadau mewnol y cyfeiriwyd atynt gan y Prif Swyddog Gweithredu. Ni chafodd yr adroddiadau hyn eu cynhyrchu i'w cyhoeddi ac efallai eu bod yn cynnwys deunydd sensitif, gan gynnwys myfyrdodau a chyngor mewnol a ddatblygwyd fel rhan o waith llunio polisïau. Felly, maen nhw'n debygol o fod wedi'u heithrio rhag cael eu datgelu o dan ddarpariaethau perthnasol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ac yn atebol. Lle bo'n briodol, byddwn yn parhau i ddarparu crynodebau lefel uchel o waith mewnol perthnasol ac i ymateb i geisiadau ffurfiol drwy'r sianeli priodol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y canfyddiadau a'r camau gweithredu allweddol sy'n deillio o drafodaethau mewnol yn cael eu hadlewyrchu mewn diweddariadau i'r Pwyllgor ar y Rhaglen Diwygio Penodiadau Cyhoeddus yn y dyfodol.

# 13. Argymhelliad 13

Roeddem yn dal heb ein hargyhoeddi bod digon yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cyflenwad o dalent ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella ei dull o annog a chefnogi unigolion i wneud cais am benodiadau cyhoeddus. Gallai hyn gynnwys mwy o gyfleoedd cysgodi a mabwysiadu dull ehangach, mwy cynhwysol o hyrwyddo'r penodiadau sydd ar gael.

Ymateb:

Rydym yn cydnabod bod angen dull strwythuredig a rhagweithiol er mwyn cryfhau'r cyflenwad o benodeion cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo i wella'r gwaith maes a sicrhau bod yr arferion recriwtio yn gynhwysol er mwyn ehangu'r cyfranogiad.

Mae nifer o gamau gweithredu eisoes ar waith, gan gynnwys:

- Ymarfer mapio rhanddeiliaid i nodi sefydliadau neu brosiectau sy'n gweithio i ehangu cyfranogiad mewn gweithgarwch byrddau ledled Cymru.  Y cynllun yw adeiladu ar yr wybodaeth hon i ddatblygu strategaethau ymgysylltu wedi'u targedu, i wella'r gwaith maes ac i hybu penodiadau cyhoeddus mwy cynhwysol.
- Datblygu canllawiau cyhoeddus a chynnwys mewnrwyd newydd i gefnogi ymgeiswyr a thimau Llywodraeth Cymru sy'n rhan o'r broses.
- Rhaglen beilot ar gyfer darpar aelodau bwrdd yn y sector iechyd, wedi'i hanelu at unigolion o gefndiroedd ethnig leiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a allai lywio gweithgarwch traws-sector yn y dyfodol.

Yn 2025-26, byddwn yn archwilio cyfleoedd i ehangu'r gweithgareddau cysgodi, mentora a pharatoi eraill i chwalu dirgelion y broses penodiadau, ac i fagu hyder darpar ymgeiswyr. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau partner a chymunedau i sicrhau bod ein dull yn gynhwysol ac yn cyrraedd y bobl sydd lleiaf tebygol o gynnig eu hunain fel ymgeiswyr.

Datblygu cyflenwad cryfach o dalent yw un o brif flaenoriaethau ein rhaglen diwygio penodiadau cyhoeddus a bydd yn rhan amlwg o'n cynllun gweladwyedd ac ymgysylltiad sydd yn yr arfaeth.

# 14. Argymhelliad 14

Rydym yn argymell bod Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith i wella ei hymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyfystyr ag addasiad rhesymol a mabwysiadu dull rhagweithiol o ddarparu opsiynau lluosog i ymgeiswyr o ran yr addasiadau sydd eu hangen arnynt. Gofynnwn am ddiweddariad ar y gwaith hwn gan gynnwys manylion yr opsiynau sydd ar gael ymhen 6 mis.

Ymateb:

Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar y rhwystrau i ymgeiswyr ac i sicrhau bod y broses penodiadau cyhoeddus yng Nghymru mor gynhwysol a hygyrch â phosibl. Er nad yw'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn bodoli ar ei ffurf flaenorol erbyn hyn, mae'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn diwygio'r broses penodiadau cyhoeddus drwyddi draw. Mae hygyrchedd a chynhwysiant wrth wraidd y gwaith hwn.

Mae'r opsiynau'n cynnwys:

- Cynnig fformatau amgen ar gyfer gwneud cais a threfniadau cyfweld hyblyg ar gais.
- Gwella eglurder a gwelededd canllawiau ar addasiadau mewn deunyddiau i ymgeiswyr a phecynnau penodiadau; · Datblygu deunyddiau hyfforddi panel i gynyddu'r ymwybyddiaeth o arferion da o ran asesu cynhwysol.
- Ystyried darparu cwestiynau cyfweliadau ymlaen llaw lle bo'n briodol, fel rhan o broses fwy tryloyw a chefnogol.

Mae'r gwelliannau hyn yn rhan o'n rhaglen diwygio ehangach i foderneiddio penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, i wella'r profiad i ymgeiswyr ac i wreiddio arferion cynhwysol ym mhob cam.

Rydym yn derbyn cais y Pwyllgor am ddiweddariad ar y cynnydd a byddwn yn darparu adroddiad ym mis Hydref 2025 yn amlinellu'r camau sydd wedi'u cymryd a'r camau nesaf er mwyn gwella hygyrchedd a chynhwysiant ymhellach.

# 15. Argymhelliad 15

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen yn gyflymach â'i gwaith i wella hygyrchedd y broses recriwtio ar gyfer penodiadau cyhoeddus a hoffem gael diweddariad ar allbynnau ei gwaith gyda grŵp atebolrwydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol cyn gynted â phosibl.

Ymateb:

Mae ein gwaith i chwalu rhwystrau, gwella'r profiad i ymgeiswyr a moderneiddio'r broses recriwtio yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r rhaglen diwygio penodiadau cyhoeddus ehangach, ac rydym wedi ymrwymo i wneud cynnydd yn gyflymach lle bo modd.

Rydym yn gweithio gyda grŵp atebolrwydd y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod ein camau gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gynhwysol, ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r trafodaethau â'r grŵp wedi ein helpu i ganolbwyntio ar y canlynol:

- Gwella hygyrchedd deunyddiau cyhoeddus.
- Archwilio dulliau asesu mwy cynhwysol.
- Cynyddu tryloywder y meini prawf a'r broses penodiadau.
- Cryfhau'r gwaith maes gyda chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.

Bydd diweddariad ffurfiol ar allbwn y gwaith hwn a'r diwygiadau hygyrchedd cysylltiedig yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor erbyn mis Hydref 2025, ochr yn ochr â'n gwaith adrodd ehangach ar weledd ac amrywiaeth.

# 16. Argymhelliad 16

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei dull o ddarparu adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ar gyfer penodiadau cyhoeddus a gofynnwn i fanylion gael eu darparu inni ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod adborth yn gyson a bod hyfforddiant safonol yn cael ei ddarparu i baneli recriwtio ar yr hyn sy'n gyfystyr ag arferion da yn y maes hwn.

Ymateb:

Mae adborth yn rhan hollbwysig o broses penodiadau cyhoeddus barchus o ansawdd uchel. Ar hyn o bryd, mae adborth yn cael ei gynnig i'r holl ymgeiswyr aflwyddiannus sydd wedi cyrraedd y cam cyfweliadau, yn unol â'r Cod Llywodraethiant.  Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr angen i gryfhau cysondeb, eglurder a chynhwysiant ar draws pob penodiad.

Rydym yn adolygu ein dull adborth fel rhan o'n rhaglen ehangach i foderneiddio a gwella penodiadau cyhoeddus. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu canllawiau a chymorth cliriach i aelodau panel a thimau mewnol, gyda'r nod o wreiddio dull mwy safonol, sy'n canolbwyntio ar yr ymgeisydd, o roi adborth.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod adborth bob amser yn adlewyrchu arferion da, yn helpu ymgeiswyr i ddatblygu ac yn cyfrannu at brofiad cadarnhaol i bob ymgeisydd.

Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y gwaith hwn fel rhan o'n gwaith adrodd ehangach ar ddiwygio penodiadau cyhoeddus.

# 17. Argymhelliad 17

Mae tâl yn amlwg yn rhwystr i fwy o bobl ymgeisio am benodiadau cyhoeddus ac rydym yn argymell ein bod yn cael diweddariad ar gynnydd ac allbynnau adolygiad Llywodraeth Cymru o Dâl Aelodau Bwrdd.

Ymateb:

Rydym yn cydnabod bod tâl aelodau bwrdd yn gallu chwarae rôl bwysig yn cefnogi cynhwysiant, hygyrchedd a thegwch penodiadau cyhoeddus. Rydym hefyd yn cydnabod bod y canfyddiadau ynghylch lefelau tâl isel neu anghyson, a thaliadau'n effeithio ar hawl i fudd-daliadau, yn gallu rhwystro rhai pobl o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli neu gefndiroedd incwm is rhag cymryd rhan.

Fel y mae'r Pwyllgor yn ei nodi, mae adolygiad o dâl aelodau bwrdd wrthi'n cael ei gynnal. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys archwilio lefelau tâl presennol, meincnodi ar draws rannau eraill o'r DU, ac ystyriaeth ehangach o sut gallai fframweithiau tâl roi mwy o sylw i ymrwymiadau amser a chefnogi amcanion amrywiaeth a chynhwysiant.

Bydd diweddariad ar gynnydd a chanfyddiadau'r adolygiad hwn yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor erbyn mis Hydref 2025.

# 18. Argymhelliad 18

Pan wneir ailbenodiadau, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at y pwyllgor perthnasol yn nodi’r rheswm/rhesymau dros wneud hynny.

Ymateb:

Mae ailbenodiadau’n cael eu gwneud drwy ddilyn y Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus. Gweinidogion sy’n gwneud y penderfyniad terfynol. Yn unol â’r canllawiau cyfredol ar graffu cyn penodi (a ddatblygwyd ar y cyd rhwng y Senedd a Gweinidogion Cymru), mae Llywodraeth Cymru’n rhoi gwybod i Bwyllgor perthnasol y Senedd pan fydd deiliad yn cael ei ailbenodi i benodiad arwyddocaol.

Drwy fynd ymhellach a chyflwyno gofyniad i nodi’r rheswm/rhesymau dros wneud hynny, gallai hynny olygu bod y llinellau atebolrwydd rhwng Gweinidogion a’r Senedd yn aneglur, ac yn rhoi baich gweinyddol sylweddol ar dimau heb fudd clir i hyder y cyhoedd neu i drefniadau goruchwylio.

Ar gyfer penodiadau arwyddocaol neu uchel eu proffil, byddwn yn parhau i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu’n briodol drwy sianeli presennol, gan gynnwys penodiadau cyhoeddus a chyhoeddi manylion penodiadau ar LLYW.CYMRU.

Bydd yr holl ailbenodiadau’n dal yn cael eu gwneud drwy ddilyn y Cod ac yn seiliedig ar resymeg glir, wedi’i chofnodi.

# 19. Argymhelliad 19

Rydym yn argymell bod Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i ddatblygu set o egwyddorion cyffredin i lywodraethu'r penodiadau cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdanynt. Dylai'r rhain gynnwys rôl gwrandawiadau cyn penodi, ffurfioli'r broses o rannu gwybodaeth berthnasol ac amserlen briodol i gyflwyno'r wybodaeth hon h.y. un wythnos lawn cyn gwrandawiad cyn penodi.

Ymateb:

Mae gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd gyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus, ac maen nhw'n gweithredu o dan fframweithiau a strategaethau rheoleiddio ac atebolrwydd ar wahân. Felly, nid ydyn ni'n credu ei bod hi'n briodol sefydlu set gyffredin o egwyddorion ar gyfer pob penodiad.

Rydyn ni'n fodlon gweithio gyda'r Senedd i bennu disgwyliadau clir o ran amserlenni, rhannu gwybodaeth a thrafod â phwyllgorau lle bo modd gwneud hyn o fewn ffiniau fframweithiau sy'n bodoli eisoes, a heb amharu ar atebolrwydd Gweinidogion.

Fodd bynnag, rydyn ni'n dal wedi ymrwymo i gefnogi tryloywder ac arferion da, yn enwedig os oes gan bwyllgorau'r Senedd rôl craffu, gan gynnwys gwrandawiadau cyn penodi ar gyfer rolau arwyddocaol.

# 20. Argymhelliad 20

Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Senedd yn ystyried a ddylai'r protocol presennol gael ei adolygu, ei ddiweddaru a'i godeiddio yn y Rheolau Sefydlog, fel y cytunodd y Llywydd a Mark Drakeford, y Prif Weinidog ar y pryd. Credwn y dylai corff priodol o fewn y Senedd gael rhywfaint o oruchwyliaeth dros y trefniadau ad hoc sy'n amrywio o benodiad i benodiad o ran ymwneud Pwyllgorau â phenodiadau cyhoeddus a arweinir gan Lywodraeth Cymru a chynrychiolaeth aelodau'r Pwyllgor ar baneli penodiadau a arweinir gan Lywodraeth Cymru.

Ymateb:

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd trefniadau craffu cadarn a thryloyw ar gyfer penodiadau cyhoeddus arwyddocaol. Mae'r protocol presennol rhwng y Llywydd a'r Prif Weinidog gynt, ochr yn ochr â chanllawiau cysylltiedig, eisoes yn darparu fframwaith clir ar gyfer gwrandawiadau cyn penodi. Mae'r trefniadau hyn yn cyd-fynd â model San Steffan ac yn sicrhau ei bod hi'n briodol trafod â phwyllgorau os cytunwyd ar swyddogaeth craffu.

Felly, nid ydyn ni'n credu bod angen codeiddio'r trefniadau hyn yn y Rheolau Sefydlog ar hyn o bryd. Rydyn ni'n dal yn fodlon gweithio'n adeiladol ag unrhyw adolygiad o'r protocol presennol yn y dyfodol os bydd y Pwyllgor Busnes yn dymuno gwneud hynny.

Byddai angen i unrhyw ystyriaeth o'r fath barhau i barchu'r rhaniad rhwng pwerau'r Senedd a Llywodraeth Cymru, a chyfrifoldeb Gweinidogion i benodi yn unol â'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod cyfranogiad pwyllgorau mewn penodiadau cyhoeddus yn briodol, yn gymesur ac yn cael ei gyfathrebu'n glir ar ddechrau pob proses benodi berthnasol.

# 21. Adroddiad Atodol

## Argymhelliad 1

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu rôl Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus i Gymru, a fyddai'n ysgwyddo cyfrifoldebau'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Ymateb:

Ar hyn o bryd, mae'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn goruchwylio penodiadau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr o dan y *Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus*. Mae trefniadau rheoleiddio ar wahân eisoes ar waith yn yr Alban drwy'r Comisiynydd Safonau Moesegol ac yng Ngogledd Iwerddon drwy Gomisiynydd Penodiadau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon. Felly, rydym yn cydnabod nad oes un model i'r DU gyfan ar gyfer rheoleiddio penodiadau cyhoeddus.

Byddai cyflwyno Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus penodol i Gymru yn newid sylweddol o'r system bresennol a byddai'n golygu bod angen:

- Newid deddfwriaeth sylfaenol yn y Senedd, gyda chydsyniad Ysgrifennydd Gwladol y DU, er mwyn newid pwerau presennol Comisiynydd y DU. Byddai hwn yn gam cyfansoddiadol a chyfreithiol sylweddol, ac nid oes pwerau eilaidd ar gael i wneud newid o'r fath ar hyn o bryd. Creu rôl statudol a strwythur llywodraethu newydd yng Nghymru.
- Datblygu Cod Ymarfer, fframwaith rheoleiddio a phroses gwyno benodol.
- Sefydlu trefniadau ariannu a staffio pwrpasol.

O ystyried y cymhlethdodau hyn a'r amser deddfu y byddai ei angen, rydym yn credu mai'r cam mwyaf cymesur ar hyn o bryd yw cryfhau'r ddarpariaeth o fewn y fframwaith rheoleiddio cyfredol. Byddwn yn parhau i wella tryloywder, perfformiad a'r gwaith gyda rhanddeiliaid, ac yn parhau i adolygu'r opsiwn o newid rheoleiddiol.

Goblygiadau ariannol: Byddai sefydlu Comisiynydd i Gymru yn golygu bod angen deddfwriaeth newydd, swyddfa penodiadau barhaol a staff cymorth, a byddai chostau gweinyddol cysylltiedig.

## Argymhelliad 2

Dylid sefydlu'r rôl hon ar y cyd – ochr yn ochr â chylch gwaith sy'n bodoli eisoes – er mwyn sicrhau bod yr effaith ar bwrs cyhoeddus Cymru yn cael ei chadw ar ei hisaf.

Ymateb:

Rydym yn cydnabod pryder y Pwyllgor ynghylch goblygiadau ariannol sefydlu rôl goruchwylio newydd. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai'n cael ei sefydlu ar y cyd â Chomisiynydd sy'n bodoli eisoes, byddai Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus i Gymru yn dal yn golygu bod angen:

- Cymhwysedd deddfwriaethol a chydsyniad Llywodraeth y DU i newid swyddogaethau Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus y DU, sydd wedi'u cadw yn ôl o dan y trefniadau presennol.
- Fframwaith statudol pwrpasol a threfniadau llywodraethu penodol i Gymru.
- Rhaniad clir o ran dyletswyddau ac atebolrwydd rhwng unrhyw rolau Comisiynydd sy'n bodoli eisoes a rolau newydd.

Byddai cynnig o'r fath yn cynnwys ystyriaethau cyfreithiol, llywodraethol ac ariannol cymhleth, a byddai'n dal yn dibynnu ar newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol.  Hefyd, nid oes rôl Comisiynydd amlwg yn bodoli eisoes y gellir ei chyfuno â rôl Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus heb newid eu dyletswyddau presennol yn sylweddol, a'u his-raddio o bosibl.

Rydym yn credu y dylem barhau i ganolbwyntio ar sicrhau gwelliannau ymarferol a mesuradwy drwy'r Rhaglen Diwygio Penodiadau Cyhoeddus, sydd eisoes yn gwella hygyrchedd, amrywiaeth ymgeiswyr a hyder y cyhoedd mewn penodiadau.

Goblygiadau ariannol: Efallai y bydd rôl ar y cyd yn lleihau'r costau gweithredol ond byddai dal yn golygu bod angen newidiadau cyfreithiol, llywodraethol a gweinyddol. Gallai hefyd greu cymhlethdod o ran sicrhau eglurder rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd.

## Argymhelliad 3

Dylai fod gan Gomisiynydd Penodiadau Cyhoeddus newydd Cymru yr un pwerau ag sydd gan y Comisiynydd Safonau Moesegol yn yr Alban ynghylch penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig) y gallu i gyhoeddi Cod ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus, a'r gallu i benodi cynghorwyr penodiadau cyhoeddus i gefnogi ymarferion recriwtio.

Ymateb:

Mae'r Comisiynydd Safonau Moesegol yn yr Alban yn gweithredu o fewn fframwaith penodiadau cyhoeddus cwbl ddatganoledig, sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth benodol i'r Alban. I'r gwrthwyneb, mae goruchwyliaeth reoleiddiol o benodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn dal yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl ac mae'n cael ei reoli gan y Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus, fel y'i cyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet.

Byddai atgynhyrchu model yr Alban yng Nghymru yn golygu bod angen:

- Cymhwysedd deddfwriaethol a chydsyniad Llywodraeth y DU i newid swyddogaethau Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus y DU, sydd wedi'u cadw yn ôl o dan y trefniadau presennol.

- Seilwaith llawn i gefnogi Cod, system cydymffurfio a mecanwaith cynghori ar wahân.

Er ein bod yn cydnabod cryfderau model yr Alban, nid ydym yn credu bod newid mor sylfaenol yn gymesur ar hyn o bryd, yn enwedig o ystyried hyd a lled y newidiadau deddfwriaethol a gweithredol y byddai eu hangen.

Yn hytrach, rydym yn blaenoriaethu camau gweithredu o fewn ein pwerau presennol, gan gynnwys ailddylunio prosesau, gwella'r cymorth i ymgeiswyr a gwella'r gwaith maes i sicrhau newid ystyrlon yn gyflymach.

## Casgliad 1

Nid yw'r model presennol o Gomisiynydd Penodiadau Cyhoeddus Cymru a Lloegr yn gweithio mor effeithiol ag y dylai o ran cael gafael ar y dalent orau ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, gyda chynrychiolaeth o Gymru gyfan.

Rydym yn cydnabod pryder y Pwyllgor ac yn cytuno bod angen gwneud cynnydd pellach i wella amrywiaeth, hygyrchedd a chyrhaeddiad penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig i sicrhau cynrychiolaeth o bob rhan o'r wlad.

Fodd bynnag, rydym yn credu bod y model rheoleiddio presennol, o dan y Cod Llywodraethiant sy'n cael ei oruchwylio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, yn sylfaen gadarn. Drwy ein Rhaglen Diwygio Penodiadau Cyhoeddus, rydym eisoes yn cymryd camau i wella'r profiad i ymgeiswyr, gwaith maes a chynrychiolaeth, gan gynnwys drwy waith sy'n seiliedig ar leoedd a defnyddio data yn well i nodi'r bylchau.

Nodwn hefyd y byddai unrhyw gam i sefydlu Comisiynydd ar wahân i Gymru yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol a chydsyniad Llywodraeth y DU i addasu rôl statudol bresennol Comisiynydd y DU.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd i sicrhau bod y model yn gweithio'n effeithiol yng nghyd-destun Cymru.

## Casgliad 2

Byddai Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus pwrpasol i Gymru, gyda'r pŵer i ymyrryd mewn penodiadau cyhoeddus a phenodi cynghorwyr annibynnol ar benodiadau cyhoeddus, yn arwain at ganlyniadau gwell ac yn cymell ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr llwyddiannus.

Rydym yn cydnabod safbwynt y Pwyllgor y gallai Comisiynydd ar wahân i Gymru arwain at fodel goruchwylio newydd. Fodd bynnag, byddai hyn yn gofyn am newid strwythurol sylweddol, gan gynnwys datganoli awdurdod rheoleiddiol, deddfwriaeth newydd, gan gynnwys cydsyniad Ysgrifennydd Gwladol y DU i addasu'r fframwaith rheoleiddio presennol, a chreu corff goruchwylio pwrpasol.

Ar hyn o bryd, rydym yn credu mai'r ffordd orau o wella canlyniadau yw cyflawni'r blaenoriaethau sydd eisoes wedi'u nodi drwy ein rhaglen diwygio, gan gynnwys gwella'r gwaith maes, asesu cynhwysol, craffu'n annibynnol ar rolau allweddol, a gwella'r cymorth i ymgeiswyr.

Byddwn yn parhau i adolygu hyn a thrafod â rhanddeiliaid, gan gynnwys y Comisiynydd, i sicrhau bod y system reoleiddio'n parhau i wasanaethu Cymru yn effeithiol.

## Casgliad 3

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau ariannu sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac o'r farn y gallai model Comisiynydd Safonau Moesegol yr Alban gynnig gwerth am arian, tra hefyd yn sicrhau bod Cymru'n goruchwylio penodiadau cyhoeddus yn uniongyrchol.

Rydym yn gwerthfawrogi cydnabyddiaeth y Pwyllgor o'r cyfyngiadau ariannu a'r dymuniad i archwilio modelau sy'n sicrhau goruchwyliaeth a gwerth am arian.

Er ein bod yn deall y rhesymeg sydd wrth wraidd model yr Alban, mae'n seiliedig ar ffframwaith rheoleiddio penodiadau cyhoeddus cwbl ddatganoledig, rhywbeth sydd ddim yn bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd.

Byddai mabwysiadu model tebyg yn golygu bod angen deddfwriaeth sylfaenol, diwygio strwythurol a sefydlu trefniadau llywodraethu newydd. Byddai goblygiadau ariannol a chyfansoddiadol i hyn oll.

Ar hyn o bryd, rydym yn credu y dylem barhau i ganolbwyntio ar sicrhau gwelliannau o fewn y model presennol. Mae hyn yn caniatáu i ni flaenoriaethu diwygiadau ymarferol sy'n gwella amrywiaeth ymgeiswyr, yn lleihau'r rhwystrau ac yn cynyddu tryloywder heb gost a chymhlethdod ychwanegol strwythur goruchwylio ar wahân.